**Tasg 3**

# Safio arian

1. Gwyliwch y fideo **Dydd Sadwrn.**

2. Mewn grŵp, trafodwch sut mae Carwyn yn gwastraffu arian. Gwnewch restr.

3. Mewn grŵp, trafodwch beth ddylai Carwyn wneud i safio arian. Gwnewch restr.

4. Mae llawer o bobl heddiw yn gwastraffu arian. Ar *post-it*, ysgrifennwch syniad ar gyfer safio arian, e.e.

> Mae llawer o bobl yn prynu brechdanau o'r siop ac maen nhw'n prynu dŵr mewn potel. Dylen nhw wneud brechdanau a rhoi dŵr o'r tap mewn potel blastig neu mewn fflasg i safio arian.

Trafodwch y syniadau mewn grŵp. Mae help i chi ar y dudalen nesaf.

| Geirfa | |
|---|---|
| gwastraffu | to waste |

Dyma ychydig o help i chi:

| **Iaith trafod** | |
|---|---|
| Dylai pobl ... | People should ... |
| Ddylai pobl ddim ... | People shouldn’t ... |
| | |
| Syniad da (achos ....) | Good idea (because ...) |
| Na, dw i ddim yn meddwl (achos ...) | No, I don’t think so (because ...) |
| | |
| Yn fy marn i, dylai pobl ... | In my opinion, people should ... |
| Yn fy marn i, ddylai pobl ddim ... | In my opinion, people shouldn’t ... |
| Dylen nhw ... yn lle ... | They should ... instead of ... |
| | |
| Wyt ti’n cytuno? | Do you (sing.) agree? |
| Ydych chi’n cytuno? | Do you (pl.) agree? |
| Dw i’n cytuno achos ... | I agree because ... |
| Dw i ddim yn cytuno achos ... | I don’t agree because ... |
| Dw i’n anghytuno achos ... | I disagree because ... |